Gwasanaeth Llysoedd
a Thribiwnlysoedd EF

Os ydych yn llenwi'r ffurflen hon â llaw, defnyddiwch LYTHRENNAU BRAS os gwelwch yn dda.

Ni all staff y llys roi cyngor cyfreithiol.

Os oes angen cyngor cyfreithiol arnoch, efallai y dymunwch gysylltu â chyfreithiwr neu Ganolfan Cyngor ar Bopeth.

TE13

Datganiad Tyst – tâl cosb heb ei dalu

Defnyddiwch y ffurflen hon i apelio:

- **tramgwydd traffig sy'n symud (y tu allan i Lundain yn unig);**

  neu

- **tramgwydd parcio (tu mewn neu'r tu allan i Lundain)**

Llenwch TE13 ar wahân ar gyfer pob hysbysiad tâl cosb.

1. Rhif tâl cosb (PCN)

2. Enw'r Atebydd

3. Rhif cofrestru'r cerbyd

Copïwch y manylion hyn yn union o'r ffurflen **Gorchymyn ar gyfer adfer y tâl cosb heb ei dalu**.

Rydym angen y rhif PCN i ddod o hyd i'ch achos.

©Hawlfraint y Goron 2026

Dim ond y person a enwir ar y ffurflen Gorchymyn ar gyfer adennill tâl cosb heb ei dalu, neu gyfaill cyfreitha ar ran yr atebydd, ddylai lenwi'r ffurflen hon.

4. Enw'r atebydd - y person a enwir yn y ffurflen yw hwn
Gorchymyn ar gyfer adfer

Teitl (Mr, Mrs, Miss, ac ati.)

Enw(au) cyntaf

Cyfenw

Os cafodd y ffurflen **Gorchymyn ar gyfer adfer cosb heb ei thalu** ei hanfon at gwmni yna rhaid i'r unigolyn sy'n llenwi'r ffurflen roi enw'r cwmni a'u swydd o fewn y cwmni.

Enw'r cwmni (os yw'n berthnasol)

Swydd yn y cwmni (os yw'n berthnasol)

Nodyn 4: Os yw'r atebydd wedi cael ei enwi fel cwmni neu sefydliad, mae'n rhaid i'r unigolyn sy'n llenwi'r ffurflen ar ei ran wneud yn siŵr ei fod yn datgan ei enw llawn ei hun yn ogystal ag enw'r cwmni, a'i swydd yn y cwmni.

5. Cyfeiriad e-bost yr atebydd

Llinell gyntaf y cyfeiriad

Ail linell y cyfeiriad

Tref neu ddinas

Sir (dewisol)

Gwlad

Cod post

Nodyn 5: Ni dderbynnir eich ffurflen heb gyfeiriad a chod post llawn.

6. Cyfeiriad e-bost yr atebydd yw

Gallwch wneud datganiad tyst o dan **un** o'r seiliau a fanylwyd isod yn unig sy'n berthnasol i chi.

Os na fydd unrhyw un o'r seiliau (A) - (D) yn berthnasol, ni allwch ddefnyddio'r datganiad Tyst hwn (ffurflen TE13) a dylech gysylltu â'r awdurdod priodol a gyflwynodd y Gorchymyn adfer i geisio datrys y mater.

8. Mae'r atebydd, yn datgan: (ticiwch **un** opsiwn yn unig)

A. ☐ Ni dderbyniais yr Hysbysiad Tâl Cosb i'r perchennog/ Hysbysiad Gorfodi.

B ☐ Mi wnes sylwadau am y tâl cosb i'r awdurdod perthnasol o fewn 28 diwrnod i'r Hysbysiad i'r Perchennog/Hysbysiad Tâl Cosb/Hysbysiad Gorfodi gael ei gyflwyno, ond ni chefais ymateb (Hysbysiad Gwrthod).

C. ☐ Apeliais yn erbyn penderfyniad yr awdurdod perthnasol i wrthod fy sylwadau i ddyfarnwr o fewn 28 diwrnod i ddyddiad cyflwyno'r hysbysiad gwrthod: (ticiwch **un** dewis yn unig)

☐ ond nid wyf wedi derbyn ymateb i fy apêl

☐ nid oedd yr apêl wedi cael ei phenderfynu erbyn yr amser y cyflwynwyd y dystysgrif tâl.

Cyfeirnod yr achos (os yw'n hysbys)

☐ Penderfynwyd yr apêl o'm plaid.

Cyfeirnod yr achos (os yw'n hysbys):

D. ☐ Mae'r tâl cosb wedi'i dalu'n llawn.

Dyddiad cafodd ei dalu

Diwrnod Mis Blwyddyn

Sut cafodd ei dalu?

☐ Arian Parod

☐ Siec

☐ Cerdyn debyd

☐ Cerdyn credyd

I bwy gafodd ei dalu?

Cyfeirnod y dderbynneb

Nodyn 8: Os byddwch yn ticio mwy nag un dewis (a-d) ni dderbynnir y datganiad tyst.

Hysbysiad Tâl Cosb i'r Perchennog yw'r Hysbysiad ffurfiol a gyflwynir drwy'r post i geidwad cofrestredig DVLA y cerbyd.

Talwyd yn llawn: Efallai y gofynnir i chi ddangos tystiolaeth o dalu ar gais.

Nodyn D: Cyfeirnod derbynneb yw'r rhif a ddyfynnir ar dderbynneb yr awdurdod sy'n cyhuddo

Datganiad gwirionedd

Deallaf y gellir dwyn achos dirmyg llys yn erbyn unrhyw unigolyn sy'n gwneud datganiad anwir, neu sy'n achosi i ddatganiad anwir gael ei wneud mewn dogfen a ddilysir gan ddatganiad gwirionedd heb gredu'n onest ei fod yn wir.

☐ **Credaf** fod y ffeithiau a nodir yn y ffurflen hon ac unrhyw ddalennau parhau yn wir.

☐ **Fe'm hawdurdodir** gan yr atebydd i lofnodi'r datganiad hwn.

Llofnod

☐ Atebydd

☐ Cyfaill cyfreitha (pan fo'r hawlydd yn barti gwarchodedig)

☐ Swyddog yn y cwmni

☐ Partner yn y cwmni

Dyddiad

Diwrnod Mis Blwyddyn

Enw llawn

Datganiad gwirionedd i'w gwblhau gan yr atebydd a enwir ar y gorchymyn ar gyfer adfer, neu rywun a awdurdodwyd ar eu rhan.

Sicrhewch eich bod yn llofnodi, nodi'r dyddiad a phrintio'ch enw yn ogystal â rhoi tic yn y blwch perthnasol os ydych yn llofnodi ar ran cwmni neu sefydliad.

Os ydych yn **gyfaill cyfreitha** , mae'n ofynnol i chi ffeilio tystysgrif addasrwydd pan fyddwch yn cymryd y cam cyntaf mewn unrhyw achos ar ran yr atebydd. Gweler Rheolau Trefniadaeth Sifil Rhan 21.5 (2), (3) a (4) am fanylion.

Cyn i chi ddychwelyd eich ffurflen wedi'i llenwi

Mae'n rhaid i chi anfon y datganiad tyst erbyn y dyddiad a ddangosir ar y gorchymyn adennill.

Os nad ydych wedi llenwi ac anfon y ffurflen hon erbyn y dyddiad a ddangosir ar y ffurflen **Gorchymyn ar gyfer adennill** , byddwch hefyd angen llenwi'r ffurflen **TE14 – Cais allan o amser** a'i hanfon gyda'r ffurflen hon.

Ble i ddychwelyd eich ffurflen wedi'i llenwi

Dylid anfon y ffurflen a gwblhawyd **TE13 – Datganiad tyst** at:

E-bost at: tec@justice.gov.uk

neu

Drwy'r post i:- Y Ganolfan Orfodaeth Traffig
Y Ganolfan Fusnes Sifil Cenedlaethol
St Katharine's House
21/27 St Katharine's Street
Northampton
NN1 2LH